# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 27 Mawrth 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gyfraniadau ariannol y mae ei hadran/Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (ASPBs) y mae hi'n gyfrifol amdanynt wedi'u rhoi neu'n bwriadu eu rhoi ar gyfer cynnig Caerdydd i fod yn 'Brifddinas Diwylliant'. (WAQ23884)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw cynlluniau'r Gweinidog o ran cefnogi (neu beidio â chefnogi) y bwriad i drosglwyddo Adran Addysg Prifysgol Abertawe i Athrofa Addysg Uwch Abertawe. (WAQ23889)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pwysigrwydd Adran Addysg Prifysgol Abertawe ym maes ymchwil er budd y proffesiwn dysgu. (WAQ23890)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor*

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gyfraniadau ariannol y mae ei adran/ Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (ASPBs) y mae ef yn gyfrifol amdanynt wedi'u rhoi neu'n bwriadu eu rhoi ar gyfer cynnig Caerdydd i fod yn 'Brifddinas Diwylliant'. (WAQ23885)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd*

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gyfraniadau ariannol y mae ei adran/ Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (ASPBs) y mae ef yn gyfrifol amdanynt wedi'u rhoi neu'n bwriadu eu rhoi ar gyfer cynnig Caerdydd i fod yn 'Brifddinas Diwylliant'. (WAQ23886)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru pa feysydd o'i bolisïau sydd wedi gwella bywydau trigolion Delyn. (WAQ23891)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru ei fentrau polisi yn Nelyn. (WAQ23892)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau*

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog egluro ei hamcan o ran lleihau'r disgownt mwyaf sydd ar gael i denantiaid cymwys sy'n dymuno bod yn berchen ar eu cartrefi, drwy'r cynllun 'Hawl i Brynu'. (WAQ23881) **R**

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch effaith y sefyllfa yn Irác ar Lywodraeth Leol yng Nghymru. (WAQ23880) **R**

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gyfraniadau ariannol y mae ei hadran/Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (ASPBs) y mae hi'n gyfrifol amdanynt wedi'u rhoi neu'n bwriadu eu rhoi ar gyfer cynnig Caerdydd i fod yn 'Brifddinas Diwylliant'. (WAQ23887)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru pa feysydd o'i pholisïau sydd wedi gwella bywydau trigolion Delyn. (WAQ23893)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru ei mentrau polisi yn Nelyn. (WAQ23894)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd*

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gyfraniadau ariannol y mae ei hadran/Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (ASPBs) y mae hi'n gyfrifol amdanynt wedi'u rhoi neu'n bwriadu eu rhoi ar gyfer cynnig Caerdydd i fod yn 'Brifddinas Diwylliant'. (WAQ23888)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru pa feysydd o'i pholisïau sydd wedi gwella bywydau trigolion Delyn. (WAQ23895)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru ei mentrau polisi yn Nelyn. (WAQ23896)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pryd y rhagwelir y bydd yr adroddiad ar ddyfodol gwarchodfa biosffer Bro Ddyfi ar gael. (WAQ23897)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal â darparwyr amgueddfeydd, ac eithrio Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru, i hyrwyddo mynediad i amgueddfeydd ledled Cymru, ac a wnaiff hi roi manylion ynghylch y trafodaethau hynny. (WAQ23879)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gyfraniadau ariannol y mae ei

hadran/Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (ASPBs) y mae hi'n gyfrifol amdanynt wedi'u rhoi neu'n bwriadu eu rhoi ar gyfer cynnig Caerdydd i fod yn 'Brifddinas Diwylliant'. (WAQ23883)

**Alison Halford (Delyn);** O ystyried y ffaith fod y Gweinidog wedi ymrwymo i gynorthwyo ag ariannu cynnig Caerdydd i fod yn 'Brifddinas Diwylliant', pa ganran o gyllideb £1.35 miliwn y cynnig ar gyfer 2001-02 ddaeth o'i hadran neu o adrannau eraill y Cynulliad/Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. (WAQ23898)

**Alison Halford (Delyn);** Ymhellach at WAQ23748, pa gynnydd a wnaed gan gwmni Canolfan Mileniwm Cymru o ran codi arian drwy ffynonellau preifat ac elusennol ers ei hateb i OAQ16863. (WAQ23899)

**Alison Halford (Delyn);** Ymhellach at WAQ23748, a yw cwmni Canolfan Mileniwm Cymru wedi codi unrhyw arian ychwanegol drwy gyfrwng ffynonellau preifat ac elusennol ers ei hateb i OAQ16863. (WAQ23900)

## *Gofyn i Bwyllgor y Ty*

**Peter Law (Blaenau Gwent);** A wnaiff y Cynulliad Cenedlaethol ddarparu cyllid ychwanegol i dalu cost gosod Band Eang mewn Swyddfeydd Etholaethol, lle nad yw'r gwasanaeth ar gael. (WAQ23882)